# Cwestiynau Ysgrifenedig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

24 Chwefror 2016

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 16 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

1. *Faint mae pob cwestiwn ysgrifenedig yn ei gostio, ar gyfartaledd, i'w ateb?*
2. *Faint o gwestiynau ysgrifenedig a ofynnwyd rhwng 1 Ionawr 2016 ac 15 Chwefror 2016?*
3. *Faint o gwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn ystod y chwe mis diwethaf? (Medi hyd at ddyddiad y cais hwn)*
4. *Os yn bosibl, rhestr yn dangos pa Aelodau Cynulliad sy'n gofyn fwyaf o gwestiynau - yn y deg uchaf ar gyfer y chwe mis diwethaf (Medi hyd at ddyddiad yr ymholiad hwn)?*

1. *Faint mae pob cwestiwn ysgrifenedig yn ei gostio, ar gyfartaledd, i'w ateb?*

Caiff Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad (WAQs) eu hateb gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, felly nid ydym yn cadw unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r cais hwn.

2. *Faint o gwestiynau ysgrifenedig a ofynnwyd rhwng 1 Ionawr 2016 ac 15 Chwefror 2016?*
3. *Faint o gwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn ystod y chwe mis diwethaf? (Medi hyd at ddyddiad y cais hwn)*
4. *Os yn bosibl, rhestr yn dangos pa Aelodau Cynulliad sy'n gofyn fwyaf o gwestiynau - yn y deg uchaf ar gyfer y chwe mis diwethaf (Medi hyd at ddyddiad yr ymholiad hwn)?*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6565
E-bost/Email: E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

Cyhoeddir ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ar ein gwefan - http://www.cynulliad.cymru/en/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=4&category=Written%20Question

Gan ddadansoddi'r wybodaeth a gyhoeddwyd eisoes, gallwch gyfrifo nifer y ceisiadau a wnaed rhwng 15 mis Medi 2015 a 15 Chwefror 2016. Byddwch hefyd yn gallu rhestru'r Aelodau Cynulliad a ofynnodd fwyaf o gwestiynau. Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn weddol hawdd ei chael drwy ddulliau eraill.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF